Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Practis Deintyddol Portfield, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
## Dyddiad yr arolygiad: 15 Awst 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83577-054-2
© Hawlfraint y Goron 2023

Gwelsom fod Practis Deintyddol Portfield yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom fod y practis yn olau, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod y staff yn trin cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd trefniadau da ar waith i drin cleifion ag urddas a pharch, ac i wneud y practis mor hygyrch â phosibl i'r rhai ag anawsterau symudedd.

Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Gwelsom fod systemau ar waith ar gyfer glanhau a dihalogi cyfarpar.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyfforddiant ar ddiogelwch tân a defnyddio safbwyntiau'r staff a chleifion i wella ansawdd y gwasanaeth.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Portfield, Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar 15 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod Practis Deintyddol Portfield yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Ceisio cymorth er mwyn rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith
- Sicrhau bod y staff yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd amgylchedd y practis yn olau, yn lân ac mewn cyflwr da
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgar a chyfeillgar mewn meddygfeydd a oedd yn cynnal eu hurddas.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*" Mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn barod i helpu."*

*" Gwasanaeth rhagorol. Mae'n bleser delio â'r derbynnydd."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod Practis Deintyddol Portfield mewn cyflwr da ac yn cynnwys digon o gyfarpar i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau i gleifion.

Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar, ac yn addas at y diben. Roedd ardal ddynodedig ar gyfer glanhau a diheintio (dihalogi) offer deintyddol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân ac atal tân
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal
- Cwblhau cofnodion cleifion mewn ffordd gliriach a mwy cyson.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Defnyddio systemau addas ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Trefniadau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Dealltwriaeth glir o weithdrefnau diogelu.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Portfield ac roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau arfarnu a chyfarfodydd tîm rheolaidd
- Rhoi proses strwythuredig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a dysgu o adborth a chwynion gan gleifion
- Cyflwyno systemau i fonitro a hyrwyddo gwelliannau o ansawdd uchel
- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Cofnodion staff yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda
- Amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau.

**Dywedodd y staff wrthym:**

Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

*"Mae pob aelod o staff y practis hwn yn trin y cleifion yn dda, yn rhoi croeso cynnes iddynt, ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn bwysig."*

*"Nid yw mewnbwn staff yn cael ei annog."*

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

